

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.5 Benthyciadau



Trosolwg

Mae gallu'r trydydd sector i gael cyllid drwy fenthyciadau wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gall mudiadau'r trydydd sector gael budd mewn sawl modd gwahanol o fenthyciadau ond nid ydynt yn addas i bob mudiad. Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnig trosolwg byr ar gyllid benthyciadau.

Beth yw benthyciad?

Mae benthyciad yn weithrediad ariannol lle bydd un parti (sy'n rhoi benthyc) yn cytuno i roi swm o arian i barti arall (sy'n cymryd benthyc) gan ddisgwyl cael ei ad-dalu'n llawn. Gall yr un sy'n rhoi benthyc ofyn am daliadau llog ar ben swm y benthyciad gwreiddiol. Fel arfer, bydd telerau ac amodau gweithrediad benthyc wedi'u nodi ar ffurf contract. Bydd y contract fel rheol yn nodi'r telerau ar gyfer ad-dalu, gan gynnwys unrhyw ffioedd trefnu, y swm sy'n ddyledus, y cyfraddau llog a gytunwyd a'r dyddiadau pan ddaw'r ad-daliadau'n ddyledus.

Nid yw benthyciadau ond yn un dull arall o ariannu mudiad ac ni ddylid eu hystyried yn rhywbeth sy'n cymryd lle grantiau.

A yw cyllid drwy fenthyciadau'n addas i'ch mudiad chi?

Cyn ystyried ymgeisio am fenthyciad, dylai mudiadau fod mewn sefyllfa lle maent wedi dangos drwy waith cynllunio trwyadl ar gyfer busnes a chyllid eu bod yn gallu cynhyrchu digon o incwm i wneud yr ad-daliadau ar y benthyciad.

Gall y mudiad ddefnyddio'r tri phwynt trafod isod i'w helpu i benderfynu a yw cyllid drwy fenthyciadau'n ddewis y dylid ei ystyried:

I beth y defnyddir y benthyciad?

Gellir defnyddio cyllid o fenthyciad at amryw o ddibenion, gan gynnwys:

- Prynu eiddo, tir, peiriannau neu gyfarpar.
- Adnewyddu eiddo sydd ganddo eisoes.
- Rheoli problemau llif arian a chylchoedd incwm o grantiau.
- Sefydlu prosiectau neu gynlluniau newydd.
- Buddsoddi yn nhwf y mudiad.

Pa fudd a gaiff y mudiad o'r benthyciad?

Os yw mudiad yn ystyried cymryd benthyciad, dylai fod yn sicr ynghylch ei bwrpas:

- A fydd y benthyciad yn caniatáu i'r mudiad gyflawni ei nodau a'i amcanion yn well?
- A fydd y benthyciad o gymorth i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau neu i gyrraedd mwy o fuddiolwyr?
- A fydd y benthyciad yn cyfrannu at gynaliadwyedd y mudiad yn y dyfodol drwy roi mwy o gyfleoedd i greu incwm?

A oes strwythurau a systemau priodol yn y mudiad?

Dylai fod yn bosibl i'r mudiad brofi ei fod yn gallu cymryd y benthyciad a'i ad-dalu:

- A yw dogfen lywodraethu'r mudiad yn caniatáu iddo gymryd benthyc arian ac yn darparu ar gyfer rhoi asedau'n warant?
- A oes systemau ariannol dibynadwy gan y mudiad i reoli buddsoddiad o'r fath?

Manteision ac anfanteision

Ceir manteision ac anfanteision wrth ddefnyddio benthyciadau fel ffynhonnell cyllid i fudiad:

Manteision

- Gellir eu trefnu'n gynt na grantiau – mae'r prosesau penderfynu'n gyflymach o lawer fel arfer.
- Nid ydynt mor gystadleuol â chyllid grant – gellir cymeradwyo ceisiadau am fenthyciad yn ôl eu teilyngdod yn hytrach nag yn ôl meini prawf y corff ariannu.
- Maent yn fwy hyblyg na chyllid grant - gellir addasu ceisiadau am fenthyciad i gydweddu ag anghenion y mudiad yn hytrach na meini prawf y corff sy'n rhoi grantiau.
- Llai o fewnbwn o ran monitro ac adrodd nag yn achos grantiau – fodd bynnag rhaid peidio â diystyru'r goblygiadau a geir os yw'r safonau adrodd ariannol yn wael.
- Telir benthyciadau o flaen llaw fel arfer, nid ar ffurf rhandaliadau neu ôl-daliadau fel y mae grantiau.

Anfanteision

- Cyfraddau llog gwahanol.
- Gellir cymhwyso ffioedd uchel am eu trefnu.
- Y cyfrifoldeb o wneud cytundeb sy'n eich rhwymo'n gyfreithiol.
- Cynnig asedau fel gwarant.

Darparwyr cyllid drwy fenthyciadau

Ar wahân i fenthycwyr masnachol y stryd fawr, ceir nifer o gyrff sy'n cynnig benthyciadau sydd wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion mudiadau'r trydydd sector. Yn ogystal â hynny, mae llawer o ymddiriedolaethau elusennol mawr wedi dechrau arbrofi drwy gynnig benthyciadau yn ddiweddar.

Mae rhestr isod o rai darparwyr sy'n cynnig benthyciadau ar gyfer y trydydd sector yn benodol. Gallwch gael mwy o wybodaeth am bob un o'r gyrff drwy ddefnyddio'r manylion cysylltu isod:

Big Issue Invest

Ffôn: 020 7526 3434

www.bigissueinvest.com

enquiries@bigissueinvest.com

Charities Aid Foundation – Venturesome

Ffôn: 0207 834 3026

www.cafonline.org/venturesome

Charity Bank

Ffôn: 01732 774 050

www.charitybank.org

loanenquiries@charitybank.org

Co-operative & Community Finance

Ffôn: 01179 166 750

www.co-opandcommunityfinance.coop

info@co-opandcommunityfinance.coop

Rhaglen Buddsoddi Cylch

Ariannu a chyllid ar gyfer mudiadau ailgylchu cymunedol

Ffôn: 02920 649 750

www.cylch.org

mail@cylch.org.uk

Cyllid Cymru

Ffôn: 0800 587 4140

www.financewales.co.uk

info@financewales.co.uk

Triodos Bank

Ffôn: 0800 587 4140

www.triodos.co.uk

businessbanking@triodos.co.uk

Unity Trust Bank

Ffôn: 0845 140 1000

www.unity.co.uk

us@unity.co.uk

WCVA - Cronfa Fuddsoddi Gymunedol

Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

help@wcva.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 01/07/2011



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk